OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 3033 (Cy. 302)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Caiff Gweinidogion Cymru, o dan adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, wneud darpariaeth drwy Orchymyn i newid y blynyddoedd pryd y mae etholiadau cyffredin cynghorwyr unrhyw awdurdod lleol (neu awdurdodau lleol) penodedig i'w cynnal.

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud o dan adrannau 87, 105(2) a (3) a 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, yn darparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned yng Nghymru yn cael eu cynnal yn 2017 yn lle 2016. Mae'n gwneud hynny drwy roi "2017" yn y mannau priodol yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n pennu blynyddoedd etholiadau cyffredin cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dirymu Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012(**1**). Darparodd y Gorchymyn hwnnw ar gyfer cynnal etholiadau cyffredin cynghorwyr i'r cyngor sir ac i'r cynghorau cymuned yn Sir Ynys Môn yn 2013, yn lle 2012, a chynnal etholiadau dilynol bob pedair blynedd ar ôl 2013. Effaith y Gorchymyn hwnnw, ar adeg gwneud y Gorchymyn hwn, yw y bydd yr etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer cynghorwyr yn Sir Ynys Môn yn cael eu cynnal yn 2017. Gan fod etholiadau cyffredin 2013 wedi eu cynnal a chan fod y Gorchymyn hwn yn rhoi "2017" yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, nid oes angen Gorchymyn 2012 mwyach a gellir ei ddirymu.

(**1**) O.S. 2012/686 (Cy. 94).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2014 No. 3033 (W. 302)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authority Elections (Wales) Order 2014

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

The Welsh Ministers may, under section 87 of the Local Government Act 2000, make provision by Order to change the years in which the ordinary elections of councillors of any specified local authority (or local authorities) are to be held.

This Order, made under sections 87, 105(2) and (3) and 106(1) of the Local Government Act 2000, provides that the ordinary elections of councillors of county councils, county borough councils and community councils in Wales will take place in 2017 instead of 2016. It does so by substituting "2017" in the appropriate places in the Local Government Act 1972, which sets the years of ordinary elections for county councils, county borough councils and community councils.

This Order also revokes the Isle of Anglesey Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) Order 2012(**1**). That Order provided for the ordinary elections of councillors to the county council and to community councils in the Isle of Anglesey county to take place in 2013, rather than 2012, and for subsequent elections to take place every four years after 2013. The effect of that Order is that, as at the time of making this Order, the next ordinary elections of councillors in the Isle of Anglesey county will take place in 2017. As the ordinary elections in 2013 have taken place and this Order substitutes "2017" in the Local Government Act 1972, the 2012 Order is no longer needed and can be revoked.

(**1**) S.I. 2012/686 (W. 94).

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod cyfnod swydd cyfredol cynghorwyr presennol a etholwyd i gynghorau sir, i gynghorau bwrdeistref sirol ac i gynghorau cymuned yng Nghymru wedi ei estyn gan un flwyddyn yn unol â hynny.

Mae'r cynllun ar gyfer etholiadau cyffredin cynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, fel y'i nodir yn adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn aros yn ddigyfnewid. Mae'r cynllun ar gyfer etholiadau cyffredin cynghorwyr cymuned cynghorau cymuned yng Nghymru, fel y'i nodir yn adran 35 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, hefyd yn aros yn ddigyfnewid.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol, yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

This Order provides that the current term of office of existing councillors elected to county councils, county borough councils and community councils in Wales is accordingly extended by one year.

The scheme for the ordinary elections of councillors of county councils and county borough councils in Wales as set out in section 26 of the Local Government Act 1972 is unchanged. The scheme for the ordinary elections of community councillors of community councils in Wales as set out in section 35 of the Local Government Act 1972 is also unchanged.

A regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Local Government Democracy Division, Local Government and Communities Department, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 3033 (Cy. 302)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014

*Gwnaed* *12 Tachwedd 2014*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *14 Tachwedd 2014*

*Yn dod i rym* *9 Rhagfyr 2014*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 87, 105(2) a (3) a 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014 a daw i rym ar 9 Rhagfyr 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i bob awdurdod lleol(**3**) yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**4**).

(**1**) 2000 p. 22. Diwygiwyd adran 106(1) gan baragraff 1 o Atodlen 25(4) i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Mae adran 84(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn diffinio "local authority" fel cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned. Mae'r diffiniad hwn yn gymwys at ddibenion adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, y gwneir y Gorchymyn hwn odano.

(**4**) 1972 p. 70.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2014 No. 3033 (W. 302)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authority Elections (Wales) Order 2014

*Made* *12 November 2014*

*Laid before the National Assembly for Wales* *14 November 2014*

*Coming into force* *9 December 2014*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred upon the National Assembly for Wales by sections 87, 105(2) and (3), and 106(1) of the Local Government Act 2000(**1**) and now vested in them(**2**).

**Title, commencement, application and interpretation**

**1.**—(1) The title of this Order is the Local Authority Elections (Wales) Order 2014 and it comes into force on 9 December 2014.

(2) This Order applies to all local authorities(**3**) in Wales.

(3) In this Order, "the 1972 Act" ("*Deddf 1972*") means the Local Government Act 1972(**4**).

(**1**) 2000 c. 22. Section 106(1) was amended by the Localism Act 2011 (c. 20), Schedule 25(4), paragraph 1.

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) Section 84(2) of the Local Government Act 2000 defines "local authority" as being a county council, a county borough council or a community council. This definition applies for the purposes of section 87 of the Local Government Act 2000, under which this Order is made.

(**4**) 1972 c. 70.

### Newid blwyddyn etholiadau cyffredin

**2.**—(1) Yn adran 26(**1**) o Ddeddf 1972 (ethol cynghorwyr), yn lle "2004" ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder "2017"(**2**).

(2) Yn adran 35(**3**) o Ddeddf 1972 (cynghorwyr cymuned), yn lle "2004", rhodder "2017".

### Cyfnod swydd cynghorwyr presennol

**3.** Yn unol â hynny, mae cyfnod swydd cynghorwyr presennol o dan adran 26(2) neu adran 35(2A) o Ddeddf 1972 wedi ei estyn gan un flwyddyn.

### Dirymu

**4.** Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012(**4**) wedi ei ddirymu.

### Change of year of ordinary elections

**2.**—(1) In section 26(**1**) of the 1972 Act (election of councillors), for "2004" in each place it occurs, substitute "2017"(**2**).

(2) In section 35(**3**) of the 1972 Act (community councillors), for "2004", substitute "2017".

### Term of office of existing councillors

**3.** The term of office of existing councillors under section 26(2) or section 35(2A) of the 1972 Act is accordingly extended by one year.

### Revocation

**4.** The Isle of Anglesey Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) Order 2012(**4**) is revoked.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

12 Tachwedd 2014

Minister for Public Services, one of the Welsh Ministers

12 November 2014

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Diwygiwyd adran 26 gan adran 4(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a chan erthygl 2(1) o Orchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2001 (O.S. 2001/3540 (Cy. 287)).

(**2**) Ar adeg gwneud y Gorchymyn hwn, mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu ar gyfer cynnal etholiad cyffredin cynghorwyr yn 2004 a phob pedair blynedd wedi hynny, ac eithrio'r rheini yn Sir Ynys Môn (gweler Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012 (O.S. 2012/686 (Cy. 94)).

(**3**) Diwygiwyd adran 35 gan adran 206 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2) a pharagraff 12 o Atodlen 8 iddi, gan adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19), a chan erthygl 2(2) o Orchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2001 (O.S. 2001/3540 (Cy. 287)).

(**4**) O.S. 2012/686 (Cy. 94).

(**1**) Section 26 was amended by section 4(2) of the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19) and by article 2(1) of the Local Government Elections (Wales) Order 2001 (S.I. 2001/3540 (W. 287)).

(**2**) At the time of making this Order, the Local Government Act 1972 provides for the ordinary election of councillors to take place in 2004 and every four years thereafter, with the exception of those in the Isle of Anglesey county (see the Isle of Anglesey Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) Order 2012 (S.I. 2012/686 (W. 94)).

(**3**) Section 35 was amended by section 206 of and paragraph 12 of Schedule 8 to the Representation of the People Act 1983 (c. 2), by section 15 of the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19) and by article 2(2) of the Local Government Elections (Wales) Order 2001 (S.I. 2001/3540 (W. 287)).

(**4**) S.I. 2012/686 (W. 94).

ISBN 978-0-348-11027-2

£4.25

W2140/11/14 ON